Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales FIRE AND RESCUE SERVICE

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# AR ÔL Y TÂN





## YN EICH CEFNOGI CHI I AMDDIFFYN EICH BUSNES

# RHESTR WIRIO AR ÔL Y TÂN

Dylai ffurflen hon gael ei llenwi ar ôl unrhyw dân ac ar ôl i unrhyw ganlyniadau gael eu gweithredu, eu hadolygu a'u cyfathrebu i unigolion perthnasol. **NID** Asesiad Risg Tân mo'r rhestr, ond gallai'r canlyniadau gyfrannu at y ddogfen honno.

| | | ✓ | ✗ |
|---|---|---|---|
| 1 | A oes adolygiad priodol o'ch Asesiad Risg wedi cael ei gynnal, gyda chamau gweithredu? (I gael gwybodaeth am asesiadau risg tân, ewch i www.cymru.gov.uk) | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 2 | O ganlyniad i'r tân, a gafwyd cadarnhad fod llwybrau dianc a drysau allanfeydd tân ar gael a'u bod yn addas, e.e. dim rhwystrau ar lwybrau, drysau'n agor yn hawdd heb allwedd, ac ati? | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 3 | O ganlyniad i'r tân, a oes angen delio gyda'r larwm tân neu'r system goleuadau argyfwng, e.e. trefnu archwiliad neu gael rhai newydd ac ati? | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 4 | O ganlyniad i'r tân, a oes unrhyw un o'r mesurau rhag tân wedi cael eu difrodi neu eu peryglu fel bod angen talu sylw iddynt neu gael rhai newydd, e.e. drysau tân, dyfeisiau sy'n cau eu hunain, ffenestri sy'n gwrthsefyll tân, arwyddion ac ati? | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 5 | O ganlyniad i'r tân, a oes angen cynnal a chadw unrhyw osodiad neu gyfarpar diffodd tân neu gael rhai newydd? | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 6 | O ganlyniad i'r tân, a yw diogeledd eich safle wedi'i beryglu, e.e. difrod i deledu cylch cyfyng, difrod i gloeon drysau, difrod i gatiau ac ati? | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 7 | O ganlyniad i'r gweithdrefnau tân a roddwyd ar waith ar adeg y tân, a oes angen rhoi sylw i unrhyw faterion brys, e.e. a wnaeth y staff ddilyn y cynlluniau a drefnwyd ymlaen llaw, a oedd y gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r safle yn ddigonol ac ati. | | |
| | *Sylwadau:* | | |
| 8 | A ddarganfuwyd beth achosodd y tân, ac a gymerwyd camau i atal hynny rhag digwydd eto, e.e. tân bwriadol wedi'i gynnau'n allanol, tân trydanol ac ati? | | |
| | *Sylwadau:* | | |

**Sylwch:** Nid yw'r rhestr wirio yn holl-gynhwysfawr, a dylid ystyried ffactorau perthnasol eraill.

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhestr Wirio Ar ôl y Tân | 2 |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Ymchwiliad ar Safle'r Tân | 5 |
| Parhad Busnes | 5 |
| Diogelwch a Chyfleustodau Iechyd, Diogelwch a Lles | 7 |
| Yswiriant | 9 |
| Arian | 12 |
| Cyfathrebu | 12 |
| Atal Difrod Eilaidd | 13 |
| Cyngor ar ôl Tân | 14 |
| Dogfennau Pwysig | 15 |
| Difrod oherwydd Dŵr – Beth i'w ddisgwyl | 16 |
| Diogelwch Tân – Eich Gofynion Cyfreithiol | 17 |
| Cynnal Asesiad Risg o Dân | 18 |
| Llosgi Bwriadol | 19 |
| Manylion Cyswllt Defnyddiol | 20 |
| Ymwadiad | 22 |

# RHAGARWEINIAD

Ar ôl i'r tân gael ei ddiffodd, bydd staff y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yn archwilio'r adeilad yn drylwyr ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw niwed strwythurol neu ddiffygion eraill sydd i'w gweld. **Dylech chi ddilyn y cyngor hwnnw er eich lles eich hun.**

Ar ôl i'r GTA adael, bydd angen i chi ystyried mesurau i'ch diogelu chi a'ch eiddo.

Os oes difrod strwythurol difrifol, efallai y bydd arolygydd adeiladu o'r awdurdod lleol yn cael ei alw er mwyn iddo roi cyngor am ddiogelwch yr adeilad, ac efallai ei fod wedi cyfeirio at unrhyw ddiffygion sydd wedi dod i'r amlwg ac sy'n effeithio ar ddiogelwch yr adeilad.

Ar ôl i'r tân gael ei ddiffodd, efallai y byddwch yn clywed sŵn yn dod o'r ardal dan sylw. Mae'n bosibl y bydd hyn yn digwydd wrth i ddeunyddiau oeri yn yr adeilad, neu efallai oherwydd problem strwythurol fwy difrifol.

Mae tanau'n cynhyrchu llawer iawn o fwg a nwyon poeth. Bydd angen cael gwared ar y rheini er mwyn cyflymu'r broses o ddiffodd y tân. Bydd hynny'n atal y tân rhag lledu cymaint ac yn lleihau maint y difrod oherwydd mwg. Am y rheswm hwn efallai y bydd raid torri ffenestri ac agor waliau a nenfydau drwy orfodaeth er mwyn gwneud yn siŵr nad oes tanau cudd yno, a fyddai'n gallu ailgynnau'n ddiweddarach petaen nhw'n cael eu gadael.

Mae tân yn gallu cael effaith aruthrol arnoch chi, eich busnes a'r gymuned leol. Mae'r GTA ar gael i'ch helpu i geisio sicrhau ei fod yn tarfu cyn lleied â phosibl ac i'ch cynorthwyo i gael pethau yn ôl i drefn.

Paratowyd y llyfryn hwn i'ch helpu chi i ddod atoch eich hun yn sydyn ar ôl tân ar eich safle, ac mae'n cynnwys gwybodaeth i geisio arbed llawer o amser i chi ac fel nad ydych yn poeni beth i'w wneud nesaf.

# YMCHWILIO AR SAFLE TÂN

Yn dilyn tân ar eich safle chi, efallai y bydd angen cynnal Ymchwiliad ffurfiol ar Safle'r Tân o dan y cyfarwyddyd deddfwriaethol o dan Adrannau 45 a 46 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

Efallai fod hyn oherwydd pa mor ddifrifol yw'r tân, os oes unrhyw anafiadau wedi digwydd o ganlyniad i'r tân, neu os yw'r hyn a achosodd y tân yn anhysbys.

Bydd yr Ymchwiliad ar Safle'r Tân yn cael ei gynnal gan o leiaf un Swyddog Ymchwilio ar Safle Tân "awdurdodedig" o'r GTA, ac fe allai fod yn rhan o ddull aml-asiantaethol (h.y. yn cynnwys Ymchwilwyr Safleoedd Trosedd o'r Heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yswirwyr ac ati).

Caiff y Swyddog Ymchwilio ar Safle'r Tân fynd i mewn i unrhyw adeilad (ac eithrio cartrefi preifat), ar unrhyw adeg rhesymol, i ganfod beth achosodd y tân, lle y dechreuodd a sut y datblygodd, a hynny fel arfer ar ôl i'r gwaith o ddiffodd y tân ddod i ben.

Bydd eich GTA yn ceisio cwblhau'r ymchwiliad cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar eich busnes ac er mwyn hybu parhad busnes. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r tân a beth yw ei natur, gall y broses hon gymryd rhai wythnosau.

# PARHAD BUSNES

Byddai'n syniad da treulio amser yn ystyried sut gallai tân effeithio ar barhad eich busnes ac ar eich cynlluniau i dyfu'r busnes. Mae toreth o wybodaeth ddefnyddiol a chyngor ar gael yn rhad ac am ddim yn: http://bit.ly/2s7vuLd

# DIOGELWCH A CHYFLEUSTODAU

**Ar ôl i ni adael**

Bydd eich eiddo'n dod yn gyfrifoldeb arnoch chi eto pan fydd y GTA yn gadael.


**Ydych chi'n bwriadu gadael eich eiddo yn wag?**

- Caewch bob ffenest a drws os yw'n ddiogel i chi wneud hynny. Mae'r rhain yn wahoddiad i ladron.
- Os oes angen bordio'r ffenestri neu'r drysau, gallwch gysylltu â chontractwr drwy'r cyfeirlyfrau busnes (neu debyg) – gweler 'Fire and Flood' neu 'Glaziers.' Efallai y bydd eich cwmni yswiriant yn talu am y gwaith.
- Symud pethau gwerthfawr a dogfennau pwysig os yw'n ddiogel i chi wneud hynny.
- Gallai staff y GTA ddefnyddio cynfasau plastig mawr i ddiogelu eich eiddo. Mae'r rhain yn parhau'n eiddo i'r GTA a gallech orfod talu ffi os ydych yn eu gor-ddefnyddio.
- Cysylltwch â'ch Heddlu lleol i roi gwybod iddynt fod eich eiddo am fod yn wag.

**Holwch am gyngor cyn ailgysylltu cyfleustodau**

Efallai y bydd y broblem wedi effeithio ar y cyflenwadau nwy, trydan a dŵr a'u bod wedi cael eu hynysu neu eu datgysylltu. Peidiwch byth â cheisio ailgysylltu'r cyfleustodau neu eu troi ymlaen eich hun, oni bai eich bod yn gymwys i wneud hynny. Cysylltwch â'ch cwmnïau cyflenwi nwy a thrydan i drefnu iddyn nhw eu hailgysylltu. Fel arfer, dim ond ar ôl i rywun cymwys gywiro'r problemau y byddan nhw'n eu hailgysylltu.

Felly hefyd, dim ond plymer cymwys ddylai drwsio ffitiadau dŵr, pibellau, tanciau ac ati. Os ydych chi'n troi'r dŵr ymlaen heb gael eich cynghori i wneud hynny, gallech chi achosi i ddŵr wneud difrod pellach i'ch safle.



# IECHYD, DIOGELWCH A LLES

### Ydych chi neu eich staff yn teimlo'n sâl?

Cysylltwch â Galw Iechyd Cymru, eich meddyg neu adran ddamweiniau'r ysbyty os ydych chi'n dioddef sgil-effeithiau mwg neu anadlu mwg ac os yw eich staff yn teimlo'n sâl unrhyw bryd ar ôl tân.

### Ydi hi'n ddiogel mynd i mewn i'r adeilad?

Peidiwch â mynd yn ôl i mewn i adeilad sydd heb fod yn ddiogel, oni bai eich bod wedi cael gwybod ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny. Dylech chi fod wedi cael gwybod am unrhyw ddiffygion sydd wedi dod i'r amlwg. Os oes difrod strwythurol difrifol, efallai y bydd angen cael cyngor gan Arolygydd Adeiladau o'r Awdurdod Lleol i gynghori pa mor ddiogel yw'r adeilad.

### Ansawdd aer gwael ar ôl tân?

Mae tanau'n gallu cynhyrchu deunyddiau peryglus, a allai gael eu hamsugno gan wahanol arwynebau yn ystod y tân, a chael eu rhyddhau'n araf wedyn. Hefyd, mae tanau'n cynhyrchu gronynnau bach sy'n gallu hofran yn yr awyr am oriau, neu ddyddiau hyd yn oed. Y cyngor yw cymryd camau i gyfyngau ar ba mor agored ydych chi i'r ansawdd aer gwael, yn enwedig yn syth ar ôl y tân.

Dylai pobl sy'n dioddef alergeddau, problemau anadlu neu asthma gadw draw o'r eiddo hyd nes bydd ansawdd yr aer wedi gwella. Os oes gennych chi amheuon, gofynnwch am gyngor meddygol. Dylai pawb gymryd camau rhagofalus i sicrhau eu bod yn anadlu cyn lleied â phosibl o nwyon a gronynnau ar ôl tân. Weithiau, mae agor y drysau a'r ffenestri'n gallu helpu i wella ansawdd yr aer. Efallai y dylech chi wisgo cyfarpar amddiffyn personol, megis troswisgoedd i'w taflu wedyn a chyfarpar priodol i ddiogelu eich anadl. Os oes gennych chi unrhyw amheuon, gofynnwch am gyngor proffesiynol.

### Mae cymorth ar gael i wella ansawdd yr aer ar ôl tân

Mae'n bosibl y bydd cwmnïau arbenigol ar gyfer Tân a Llifogydd yn gallu gwella ansawdd yr aer drwy ddihalogi eich eiddo a defnyddio "sgwrwyr awyr" sy'n tynnu'r gronynnau bach allan o'r aer. Os oes gennych yswiriant, efallai y bydd eu ffioedd yn dod dan eich polisi safonol.

### Ceisio beidio â chyffwrdd eich croen mewn gweddillion tân

Gall gweddillion tân gynnwys cemegion niweidio. Dylech osgoi cyffwrdd eich croen oherwydd gallai'r cemegion niweidio eich croen neu gael eu hamsugno drwyddo. Os ydych chi'n gorfod trin eitemau halogedig, lleihawch y risg drwy wisgo menig a dillad amddiffynnol addas.

## Diogelwch gyda dŵr

Osgowch gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw ddŵr halogedig (e.e. dŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan y GTA, carthffosiaeth ac ati). Golchwch eich dwylo'n drylwyr cyn cyffwrdd mewn bwyd, a gwarchodwch unrhyw doriadau yn y croen drwy roi plaster gwrth-ddŵr arnynt. Dylai pobl sydd â system imiwnedd wan fod yn arbennig o ofalus. Ar ôl i'ch adeilad fod yn agored i ddŵr, efallai y bydd llwydni'n tyfu cyn bo hir. Mae adeiladau llawn llwydni yn gallu achosi asthma a mathau eraill o salwch. Cymerwch gamau ar unwaith i ddechrau sychu'r adeilad.

## Diogelwch gyda bwyd

Peidiwch â defnyddio bwyd os oes gwres, mwg neu ddŵr wedi effeithio arno (e.e. dŵr a ddefnyddiwyd gan y GTA, dŵr o bibellau wedi byrstio, ac ati). Os oes gennych chi amheuaeth, dylech gael gwared ar y bwyd mewn modd cyfrifol.

## Larymau Tân

Os yw'r larymau mwg neu'r larymau gwres wedi seinio, bydd angen i chi brofi a gwirio'r larymau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n dal i weithio. Hefyd, os yw eich larymau wedi bod yn agored i wres uchel a mwg, efallai y byddan nhw wedi cael difrod a bydd angen eu harchwilio neu gael rhai newydd.

## Diogelwch gyda Chyflenwadau Trydanol, Goleuadau Dros Dro a Systemau Gwresogi

Rhaid ynysu gwifrau neu beiriannau trydanol sydd wedi cael eu difrodi neu eu gwlychu, a hynny gan rywun cymwys cyn eu defnyddio – peidiwch â mentro cael eich trydaneiddio. Cofiwch fod dŵr yn dargludo trydan. Gall rhai peiriannau trydan storio gwefr drydanol am rai oriau. Dylid gosod generaduron y tu allan oherwydd maen nhw'n rhyddhau mygdarth sy'n gallu lladd mewn lle cyfyng.

## Deunyddiau sy'n cynnwys Asbestos

Mae llawer o ddeunyddiau adeiladu cyffredin yn cynnwys asbestos, ac nid yw hwnnw'n gwneud dim drwg os nad oes neb yn tarfu arno. Yn ystod tân, gall y deunyddiau hyn gael eu difrodi a rhyddhau ffibrau asbestos i'r awyr. Gall asbestos fod yn ddrwg i'ch iechyd os ydych chi'n ei anadlu. Os ydych chi'n amau fod deunydd sy'n cynnwys asbestos wedi cael ei ddifrodi, gofynnwch am gyngor gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn yr Awdurdod Lleol neu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.



# YSWIRIANT

### Pwy i'w gael i wneud y gwaith brys?

Efallai y bydd eich polisi yswiriant yn rhoi hawl i chi gael cymorth i ddelio gyda'r drafferth yn dilyn tân. Efallai y bydd cwmnïau yswiriant yn anfon contractwyr cenedlaethol i wneud gwaith adnewyddu yn dilyn digwyddiadau sydd wedi achosi difrod.

### Pwy sy'n talu am waith brys?

Fel arfer, mae eich polisi yswiriant (tynnu unrhyw dâl dros ben neu eithriadau) yn talu am waith gan gwmnïau arbenigol ar gyfer tân a llifogydd i gyfyngu ar ddifrod uniongyrchol. Dylai cwmnïau arbenigol ar gyfer tân a llifogydd fod mewn cysylltiad drwy'r amser er mwyn sicrhau bod y gwaith yn aros o fewn y polisi.

### Beth ddylech chi ei wneud?

Mae eich cwmni yswiriant yn disgwyl i chi gymryd camau prydlon i leihau difrod pellach ar ôl i'r GTA adael eich safle. Gall cwmnïau arbenigol ar gyfer tân a llifogydd eich helpu drwy gymryd camau i atal difrod pellach. Un fantais arall o ddefnyddio'r arbenigwyr hyn yw y dylen nhw gynnig cyngor i chi ar faterion yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, megis ansawdd aer gwael y tu mewn, a allai effeithio ar bobl sydd yn yr adeilad. Gall hyn i gyd eich helpu chi i ddod dros y digwyddiad yn ddiogel.

Pan fyddwch chi'n cysylltu â'ch Cwmni Yswiriant, cofiwch ei bod yn bosibl fod angen rhoi gwybod i gwmni yswiriant yr adeilad a'r cwmni yswiriant ar gyfer y cynnwys.

### Tynnwch luniau

Tynnwch luniau ffotograff o'r difrod (gan gynnwys unrhyw eitemau sydd wedi cael eu symud y tu allan gan staff y gwasanaethau brys).

### Ai chi sy'n berchen ar yr eiddo?

Os chi sy'n berchen ar yr eiddo, dylech chi gysylltu â chwmni yswiriant yr adeilad. Efallai y bydd angen i chi roi gwybod i'r cwmni morgais am y digwyddiad hefyd.

### Ydych chi'n lesddeiliad?

Bydd angen i chi wirio telerau eich les, lle cewch ddiffiniad o'ch cyfrifoldeb tuag at yr eiddo. Cynghorir chi i roi gwybod i'r perchennog, a allai fod yn gyfrifol am yr yswiriant adeilad.

## Cymhwyswyr Colledion

Mae'n bosibl y bydd y cwmni yswiriant yn anfon cymhwysydd colledion neu gynghorydd hawliadau i archwilio'r difrod i'r eiddo a/neu ei gynnwys. Maen nhw'n cynrychioli eich cwmni yswiriant ac yn cael eu penodi ganddyn nhw i asesu maint y difrod. Ni ddylai neb godi tâl arnoch chi am hyn. Peidiwch â chael gwared ar ddim, gan gynnwys peiriannau a allai fod wedi achosi'r digwyddiad, heb i chi gael caniatâd i wneud hynny.

## Paratoi'r hawliad

Gwnewch restr fanwl o bob eitem sydd wedi cael ei difrodi, ynghyd â chostau rhai newydd os oes modd. Dylai cwmnïau arbenigol tân a llifogydd fod yn gallu rhoi cymorth i chi drwy adrodd ynghylch cyflwr y difrod a/neu drefnu archwiliadau gan arbenigwyr. Efallai y bydd angen i chi gael dyfynbrisiau ar gyfer costau atgyweirio'r adeilad. Rhowch y rhain i gyd i gynrychiolydd y cwmni yswiriant, os oes un wedi cael ei benodi, neu anfonwch nhw at y swyddfa hawliadau. Cofiwch gadw copïau o'r holl ohebiaeth ac anfonebau a derbynebau.

## Ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW?

Mae modd hawlio'r TAW ar hawliadau costau ar gyfer safleoedd busnes – nid y rhan ddomestig – yn ôl gan Gyllid a Thollau EM.

## Rhagor o wybodaeth am yswiriant

Gellir cael gwybodaeth gyffredinol am faterion yswiriant gan:
The Association of British Insurers,
51 Gresham Street, Llundain, EC2V 7HQ
Rhif ffôn: 02076003333

(Mae Ombwdsmon Yswiriant ar gael hefyd, ar gyfer achosion o anghytuno neu anghydfod.)



## Lleddfu Difrod

Gall cwmnïau arbenigol ar gyfer tân a llifogydd helpu hefyd i leihau difrod pellach. Byddan nhw'n eich helpu chi i gael pethau yn ôl i drefn yn eich busnes cyn gynted ag y bo modd.

Dyma rai o'u gwasanaethau posib:

- Cyswllt agos gyda'r yswirwyr, a chael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer eu gwaith
- Ymateb 24 awr
- Offer 'sgwrio'r aer' i wella ansawdd yr aer
- Gallu profi clorid i asesu'r risg o gyrydu
- Gallu tynnu a phwmpio dŵr
- Cyfarpar dadleithio a symud aer – rhai mawr a bach
- Systemau sychu drwy chwistrellu i ryddhau lleithder sy'n gaeth, a hynny heb orfod dymchwel yr adeilad mewn modd sy'n tarfu nac yn gostus
- Profi glanweithdra ar ôl glanhau dŵr halogedig
- Prosesau gwaredu arogl mwg, sydd heb fod yn gadael gweddillion triniaeth
- Mae rhai yn cynnig system rhew-sychu ar gyfer achub dogfennau gwlyb



# ARIAN

Os oes arian wedi cael ei ddifrodi, efallai y byddwch chi'n dal yn gallu ei gyfnewid mewn banc.

# CYFATHREBU

**Galwadau Ffôn**

Os oes tân wedi achosi i'ch system ffôn beidio â gweithio, dylech chi ystyried dargyfeirio eich galwadau i rif ffôn arall, er enghraifft i rif ffôn symudol. Efallai y bydd eich cwsmeriaid yn ffonio i cael tawelwch meddwl ar ôl clywed fod tân ar eich safle – os nad yw eich rhif ffôn yn gweithio ar ôl diwrnod neu ddau, efallai y bydd eich cwsmeriaid yn cymryd eich bod chi wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

**System Bost**

Os nad oes modd defnyddio rhan o'ch safle/eich holl safle oherwydd tân, beth am wneud trefniadau i ailgyfeirio neu gasglu'r post.

**Delio gyda'r Wasg (Y Cyfryngau)**

Os ydych chi wedi cael tân difrifol, mae'n siŵr y bydd y 'wasg' a chwmnïau teledu yn dod atoch o gael datganiad neu gyfweliad. Dylid enwebu cynrychiolydd cyfrifol o'r cwmni fel 'swyddog y wasg' a chyfeirio unrhyw ymholiadau gan y cyfryngau at yr unigolyn hwnnw. Dylid enwebu dirprwy hefyd.

Fel arfer, bydd y wasg leol yn dangos diddordeb mewn tanau bach hyd yn oed. Ceisiwch ddefnyddio'r sylw er budd i chi eich hun. Er enghraifft, os ydych chi'n hyderus y byddwch chi'n gallu parhau mewn busnes ar hyn o bryd, neu os byddwch chi'n cynnig gwasanaeth cyfyngedig hyd nes y daw pethau yn ôl i drefn, dywedwch hynny! Cofiwch y bydd eich cwsmeriaid yn awyddus i ddysgu pa effaith y bydd y tân yn ei chael ar eu busnes. Peidiwch â rhoi'r fantais i'ch cystadleuwyr – efallai y byddwch chi'n dymuno trafod sefyllfa o'r fath efo eich cynrychiolydd cyfreithiol cyn siarad efo'r cyfryngau.

**Rhoi gwybod i'ch Rhanddeiliaid**

Dylech chi ystyried rhoi gwybod am y digwyddiad i'ch rhanddeiliaid (e.e. canghennau eraill, y Brif Swyddfa, cyflenwyr, cwsmeriaid ac ati).

# ATAL DIFROD EILAIDD

### Beth yw Difrod Eilaidd?

- Difrod y mae modd ei osgoi ac sy'n digwydd ar ôl tân. Gall olygu cynnydd mawr yn y gost sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddigwyddiad a cholli eitemau personol yn ddiangen.
- Difrod fel rhwd a staeniau, yn cael ei achosi gan weddillion asid tân, gan hyd yn oed ddifrodi strwythurau adeiladau.
- Pan fydd lefelau'r lleithder yn cynyddu mewn adeilad, gall llwydni ddatblygu. Mae pren yn parhau i chwyddo a mynd yn gam po hiraf y bydd yn aros yn damp.

### Lleihau Difrod Eilaidd

Dechreuwch drwy nodi'r eitemau sydd mewn perygl a delio efo'r rheini yn gyntaf. Efallai y bydd hyn yn golygu dadhalogi ar frys, sgwrio'r aer, lleihau'r lleithder neu ddefnyddio triniaethau arbennig i atal rhagor o ddifrod. Efallai y bydd cwmnïau arbenigol ar gyfer tân a llifogydd yn gallu eich helpu.



# CYNGOR AR ÔL TÂN

Peth naturiol yw bod eisiau glanhau adeilad a'r hyn sydd ynddo ar ôl cael tân a difrod oherwydd mwg. Ond gallai cymryd y camau anghywir arwain at fwy o broblemau. Peidiwch ag oedi oherwydd gallai fod yn anoddach neu'n amhosibl adfer rhai eitemau'n foddhaol. Cofiwch gymryd camau i'ch gwneud chi eich hun yn ddiogel.

### Gallwch chi wneud hyn

- Agorwch y drysau a'r ffenestri er mwyn cael awyr iach (ond peidiwch â gadael yr adeilad yn agored i ladron).
- Os oes perygl o rew, a'r system wresogi heb fod yn gweithio, meddyliwch am alw plymer i ddraenio'r pibellau.

### Ond peidiwch â gwneud hyn

- Peidiwch â defnyddio eitemau bwyd sydd wedi bod yn agored i'r tân, neu nwyddau mewn caniau sydd wedi bod yn agored i lawer o wres neu fwg. Peidiwch ag ailrewi bwyd sydd wedi dadmer, na defnyddio bwyd sydd wedi bod yn agored i wres a/neu ddŵr halogedig. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, dylech chi gael gwared ar y bwyd mewn modd cyfrifol.
- Peidiwch â defnyddio peiriannau trydanol o safle'r tân hyd nes y byddan nhw wedi cael eu glanhau a'u gwirio gan rywun cymwys.
- Peidiwch â defnyddio nwy petrolewm hylifedig (LPG) wrth sychu'r safle oherwydd gall y peiriannau greu anwedd dŵr ychwanegol yn yr ystafell.



# DOGFENNAU PWYSIG

Os yw eich dogfennau personol wedi cael eu colli neu eu dinistrio, gallai'r cyngor canlynol fod yn ddefnyddiol er mwyn cael dogfennau eraill yn eu lle.

## Dogfennau Banc a Chymdeithas Adeiladu/cardiau credyd

Cysylltwch â'ch Banc neu eich Cymdeithas Adeiladu. Byddan nhw'n rhoi dogfennau a chardiau newydd i chi.

## Trwydded Yrru a chofnodion Cerbyd

Cysylltwch â'r DVLA yn Abertawe SA6 7JL.

## Cofnodion Treth Incwm

Mae eich swyddfa dreth leol yn cadw manylion am ffurflenni a chofnodion treth pawb. Cysylltwch â'ch swyddfa leol.

## Polisïau yswiriant

Bydd y cwmni yswiriant yn rhoi copïau i chi o'ch dogfennau.

## Gweithredoedd

Bydd eich Cyfreithiwr yn gallu rhoi help i chi ar hyn.

## Gwarantiadau a Gwarantau

Mae'r prif gardiau neu ddogfennau cofrestru yn cael eu cadw gan y gwneuthurwr.

## Stociau a Bondiau

Efallai fod gan eich Brocer fanylion y cyfranddaliadau sydd gennych, ac efallai y bydd angen Cyfreithiwr i ail-greu'r tystysgrifau. Bydd eich Swyddfa Bost leol yn gallu dweud sut y gallwch gael copïau o Fondiau'r Swyddfa Bost.

## Llyfrau talu

Mae cofrestrau a chyfrifon meistr yn cael eu cadw gan y sefydliadau yr ydych chi'n eu talu.

## Pasbortau

Gellir cael y rhain gan y swyddfa berthnasol a'u rhoddodd. Neu, i bobl nad ydynt yn wladolion, gallwch eu cael drwy eich Is-gennad neu Lysgenhadaeth.

# DIFROD DŴR – BETH I'W DDISGWYL

**Pa fath o ddŵr ydyw?**

Os yw eich eiddo wedi cael llifogydd, rhaid i chi ganfod y math o ddŵr ydoedd, oherwydd hyn fydd yn penderfynu beth yw'r camau priodol i'w cymryd i gael pethau yn ôl i drefn cyn gynted ag y bo modd. Os oes dŵr yn dianc o'r tu mewn i eiddo, gofynnwch i chi eich hun a yw wedi dod o le glân, fel pibell ddŵr neu bibell gyflenwi i beiriant golchi. Os ydyw wedi dod o le glân, yna dŵr glan ydyw. Ond dylech ystyried mai dŵr halogedig (budr) yw unrhyw ddŵr sy'n dod o'r system garthffosiaeth, system wresogi neu o'r tu allan i'r eiddo.

**Os yw'r dŵr yn lân**


Mae delio efo dŵr glân yn symlach na dŵr halogedig, ac os yw'r gollyngiad yn un bach efallai y byddwch chi'n gallu  cyfyngu'r sefyllfa eich hun. Cofiwch ei bod yn bosibl na fyddwch chi'n gallu canfod lleithder sydd yn gaeth o dan y lloriau neu yn y ceudodau yn y waliau ac ati, a bydd angen Cwmni Arbenigol ar gyfer Tân a Llifogydd arnoch. Efallai y bydd yr yswirwyr yn talu am y gwaith hwn.

**Os yw'r dŵr yn halogedig**

Rhaid i chi fod yn ofalus iawn o ran glendid personol a gyda bwyd os yw eich eiddo wedi dioddef llifogydd gan ddŵr halogedig. Rhaid glanhau a dihalogi'n drylwyr, a bydd cwmnïau yswiriant fel arfer yn talu am y gwaith.

**Dŵr a Thrydan – Cymerwch ofal!**

Mae trydan yn gallu teithio drwy ddŵr. Diffoddwch y trydan mewn eiddo sydd wedi cael llifogydd, a pheidiwch â defnyddio peiriannau sydd wedi bod yn y llifogydd. Cofiwch fod peiriannau trydan yn gallu cadw'r wefr drydanol, hyd yn oed na fyddan nhw wedi cael eu plygio i mewn ers oriau.



# FIRE SAFETY – YOUR LEGAL REQUIREMENTS

(Cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005)


O dan y ddeddfwriaeth diogelwch tân, mae dyletswydd arnoch i gymryd rhagofalon cyffredinol rhag tân er mwyn diogelu pobl os oes tân ar eich safle neu yng nghyffiniau eich safle.

Rhaid i chi gynnal asesiad risg tân er mwyn gwybod beth yw'r rhagofalon  tân. Rhaid i'r asesiad hwn roi ystyriaeth i'r safle cyfan, gan gynnwys y lleoliadau allanol ac unrhyw ystafelloedd ac ardaloedd nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n aml.

Rhaid i chi gynnal asesiad risg ni waeth faint o weithwyr sydd gan y busnes.

Rhaid cofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risg os oes 5 neu ragor o bobl yn cael eu cyflogi (naill ai ar un safle neu gyda'i gilydd ar nifer o safleoedd) neu os oes trwydded mewn grym dan unrhyw ddeddfwriaeth arall.

Yn ôl argymhellion y canllawiau cyfredol, dylid adolygu asesiadau risg bob blwyddyn o leiaf, pan mae newid mawr neu pan mae gennych reswm i amau nad ydyn nhw'n ddilys mwyach.



# CYNNAL ASESIAD RISG TÂN

Meddyliwch am y canlynol wrth gynnal asesiad risg:

## Canfod peryglon tân

- Ffynonellau'r fflam, y tanwydd a'r ocsigen

## Canfod pobl sydd mewn perygl

- ▪ Gweithwyr, contractwyr, pobl ifanc, a phawb sydd â hawl cyfreithiol i fod ar eich safle neu yng nghyffiniau eich safle

## Gwerthuso'r risg, ei ddileu, ei leihau ac amddiffyn rhagddo

- Gwerthuso'r risg fod tân yn digwydd a beth yw'r risg i bobl
- Dileu neu leihau'r perygl tân, ac felly y risg i bobl
- Darparu dulliau canfod a rhybuddio
- Darparu dulliau diffodd tân
- Cadw llwybrau dianc yn glir a gosod arwyddion i'w dangos
- Cynnal a chadw systemau
- Arwyddion a rhybuddion
- Golau mewn argyfwng

## Cofnodi, Cynllunio ac Adolygu

- Cofnodi canfyddiadau arwyddocaol a'r camau angenrheidiol / y camau a gymerwyd
- Paratoi cynllun argyfwng
- Hysbysu a hyfforddi'r bobl berthnasol
- Darparu a chofnodi hyfforddiant i'r staff

# LLOSGI BWRIADOL

**Byddwch yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â llosgi bwriadol**

Dyma rai camau syml i'w cymryd er mwyn lleihau effeithiau llosgi bwriadol ar eich safleoedd.

- Peidiwch â gadael i ddeunyddiau llosgadwy gronni llawer ar eich safle
- Gwnewch yn siŵr fod yr eiddo yn ddiogel drwy gael cloeon digonol ar y drysau a'r ffenestri
- Meddyliwch am osod goleuadau diogelwch
- Storiwch bob bin draw oddi wrth adeiladau, ac os oes modd, mewn lle caeedig dan glo
- Rhowch wybod i'r awdurdod lleol am unrhyw achos o dipio anghyfreithlon



# MANYLION CYSYLLTU DEFNYDDIOL

**Trydan**

Western Power - Argyfyngau 0800 052 0400; Ymholiadau Cyffredinol 0845 601 3341

Scottish Power - Argyfyngau 0845 272 2424; Ymholiadau Cyffredinol 0845 273 4444

**Dŵr**

Dwr Cymru - 0800 085 3968

**Nwy**

Grid Cenedlaethol - Argyfyngau 0800 111 999

**Iechyd**

Galw Iechyd Cymru 0845 4647

Heddlu – ffoniwch 999 bob amser mewn argyfwng

Heddlu Dyfed Powys – Nid argyfyngau 101 neu 01267 222020

Heddlu Gwent - Nid argyfyngau 101 neu 01633 838111

Heddlu Gogledd Cymru - Nid argyfyngau 101 neu 0300 3300101

Heddlu De Cymru - Nid argyfyngau 101 neu 01656 655555

**Asiantaethau Cenedlaethol**

Cyfoeth Naturiol Cymru - Argyfyngau 0800 807060; Ymholiadau Cyffredinol 0300 0653000

Llinell Llifogydd - 0845 9881188

DVLA - 0300 790 6801

Llinell Wybodaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - 0300 0031747

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – Ymholiadau gan Gyflogwyr 0300 2003200

Yswiriant Gwladol - 0300 2003500

Cynilon a Buddsoddiadau Cenedlaethol -0500 007007

Swyddfa Basbortau EM - 0300 222 0000

**Cyngor ar Bopeth**

Your local Citizens Advice Bureau can offer a wealth of helpful advice including addresses and telephone numbers of other sources of help. Visit the Citizens Advice Bureau on www.adviceguide.org.uk or use the telephone directory for your local office.

## Cymorth gan eich Awdurdod Lleol

Bydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd neu'r Swyddog Rheoli Adeiladau yn eich awdurdod lleol yn rhoi cymorth i chi os ydych chi'n pryderu am sefydlogrwydd adeiladau neu lygredd. Ffoniwch eich awdurdod lleol a gofyn am yr adran berthnasol.

## Defnyddiwch y We

Mae'r we yn ffordd dda i ddod o hyd i wasanaethau lleol. Os na allwch chi ddefnyddio eich cyfrifiadur mewn ffordd ddiogel, mae llyfrgelloedd a chaffis y we ar gael ar eich cyfer.

Defnyddiwch y dudalen hon i wneud nodyn o'r wybodaeth berthnasol.

| | |
|---|---|
| Cwmni Yswiriant | |
| Rhif Ffôn Yswiriant | |
| Rhif Polisi | |
| Cyfeirnod yr Hawliad | |
| Dyddiad y Digwyddiad | |
| Dyddiad pryd yr adroddwyd ynghylch y Digwyddiad | |
| Cymhwysydd Colledion | |
| Rhif Ffôn y Cymhwysydd | |
| Cwmni Arbenigol ar gyfer Tân a Llifogydd | |
| Awdurdod Lleol | |
| Eraill | |

# MANYLION CYSWLLT Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| De Cymru<br>Pencadlys y GTA<br>Parc Busnes Forest View<br>Llantrisant<br>CF72 8LX | Ffôn: 01443 232000<br>Ffacs: 01443 232180<br>E-bost: gtdc@southwales-fire.gov.uk<br><br>www.decymru-tan.gov.uk |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Pencadlys y GTA<br>Heol Llwyn Pisgwydd<br>Caerfyrddin<br>SA31 1SP | Ffôn: 0370 6060699<br>Ffacs: 01267 220562<br>E-bost: mail@mawwfire.gov.uk<br><br>www.tancgc.gov.uk |
| Gogledd Cymru<br>Pencadlys y GTA<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych LL17 0JJ | Ffôn: 01745 535 250<br><br><br><br><br>www.gwastan-gogcymru.org.uk |

**Ymwadiad**

Arweiniad cyffredinol yn unig ar faterion diogelwch tân yw'r wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn. Mae defnyddio cyfreithiau a'u heffaith yn gallu amrywio'n fawr yn seiliedig ar y ffeithiau penodol dan sylw, a chynghorir chi i gael cyngor arbenigol pellach os ydych yn ansicr sut i'w dilyn mewn perthynas â'ch busnes chi. Gan fod cyffeithiau, rheolau a rheoliadau yn newid, ac oherwydd y peryglon cynhenid sy'n gysylltiedig â chyfathrebu'n electronig, efallai y bydd oedi, hepgoriadau neu wallau yn yr wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn.

Er ein bod ni wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y Llawlyfr hwn wedi dod o ffynonellau dibynadwy, nid yw'r GTA yn gyfrifol am unrhyw wallau neu hepgoriadau, nac am y canlyniadau a geir ar ôl defnyddio'r wybodaeth. Mae'r holl wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei darparu "fel y mae", heb unrhyw sicrwydd ei bod yn gyflawn, yn gywir ac yn amserol nac am y canlyniadau a geir ar ôl defnyddio'r wybodaeth.

Ni fydd y GTA, ei bartneriaethau neu ei bartneriaid cysylltiol, ei asiantwyr neu ei weithwyr, o dan unrhyw amgylchiadau, yn atebol i chi na neb arall am unrhyw benderfyniad neu gamau a gymerir drwy ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn, nac am unrhyw ddifrod canlyniadol, arbennig neu debyg, hyd yn oed os ydych wedi cael gwybod am y posibilrwydd o ddifrod o'r fath.

Mae'r wybodaeth sydd yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

# NODIADAU

# NODIADAU